Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in English

# Biwroau Cyflogaeth a Menter: canllawiau a chyllid 2026/27

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 08 Medi 2026 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2026/45 |
| **At:** | Benaethiaid sefydliadau addysg bellach |
| **Ymateber erbyn:** | Cyflwyno adroddiad interim - 29 Ionawr 2027<br>Cyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn - 30 Gorffennaf 2027 |
| **Rhagor o wybodaeth:** | Emma Mock, Rachel O'Gorman:<br>sgiliauachyflogadwyedd@medr.cymru |


**Crynodeb:**

Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi gofynion a threfniadau cyllido Medr ar gyfer gweithgarwch Biwroau Cyflogaeth a Menter (EEB) yn 2026/27. Mae'n cadarnhau trefniadau monitro, llinellau amser ac yn atodi templedi monitro.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg |
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi |
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Crynodeb o’r cyhoeddiad

1. Mae’r cyhoeddiad hwn yn nodi gofynion a threfniadau cyllido Medr ar gyfer gweithgarwch Biwroau Cyflogaeth a Menter (EEB) yn 2026/27. Mae’n cadarnhau trefniadau monitro, llinellau amser ac yn atodi templedi monitro.

2. Nod y Biwroau Cyflogaeth a Menter yw cyflawni deilliannau cyflogaeth a hunangyflogaeth cadarnhaol ar gyfer myfyrwyr, trwy ddarparu pecyn o gymorth i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, menter ac entrepreneuraidd dysgwyr. Dylid rhoi’r cymorth hwn trwy gydweithio gyda chyflogwyr, Gyrfa Cymru, y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr yn eu rhanbarthau.

3. Dylid defnyddio’r cyllid i barhau i integreiddio darpariaeth menter ac entrepreneuriaeth o fewn y Biwroau Cyflogaeth a Menter, gan amcanu at gynyddu’r cyfleoedd hunangyflogaeth sydd ar gael i ddysgwyr ac ymadawyr, yn ogystal â hybu’r arfer o wreiddio cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth o fewn y cwricwlwm er budd dysgwyr.

### Cyllid 2026/27

4. Mae cyfanswm y gyllideb sydd ar gael i gefnogi’r Biwroau Cyflogaeth a Menter rhwng 1 Awst 2026 a 31 Gorffennaf 2027 yn **£1,320,000**. Mae’r cyllid hwn yn cynnwys £960,000 o gyllid Medr a £360,000 gan Busnes Cymru, y mae’n rhaid ei ddefnyddio i gefnogi’r elfen Menter ac Entrepreneuriaeth o weithgarwch y Biwroau Cyflogaeth a Menter mewn Sefydliadau Addysg Bellach (SABau) yng Nghymru. Bydd cyfanswm y dyraniad yn parhau i gael ei rannu’n gyfartal ar draws 12 SAB yng Nghymru fel bod pob SAB yn cael cyfanswm dyraniad o **£110,000** yn 2026/27.

### Monitro a ffrâm amser

5. Mae’n ofynnol i SABau gyflwyno adroddiad monitro interim a diwedd blwyddyn, gan ddefnyddio’r templedi yn **Atodiad A a B**, i Medr erbyn y dyddiadau a nodir yn y llinell amser ym mharagraff 24. Gan bod y cyllid menter ar gyfer 2026/27 yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, bydd gwybodaeth yr adroddir arni wrth Medr yn erbyn y gofynion hynny’n cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru fel y gellir monitro effaith ei chyllid.

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|
| Taliad cyntaf o £83,600 i Fiwroau Cyflogaeth a Menter ar gyfer 2026/27 | Medr | Medi 2026 |
| Cyflwyno adroddiad interim i Medr | Biwroau Cyflogaeth a Menter | 29 Ionawr 2027 |
| Taliad olaf o £26,400 i Fiwroau Cyflogaeth a Menter ar gyfer 2026/27 | Medr | Ebrill 2027 |

| | | |
|---|---|---|
| Cyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn i Medr | Biwroau Cyflogaeth a Menter | 30 Gorffennaf 2027 |
| Cyflwyno Datganiad o Wariant i Medr | Biwroau Cyflogaeth a Menter | 31 Awst 2027 |

## Cyflwyniad

6. Mae'r cyhoeddiad hwn yn nodi gofynion a threfniadau cyllido Medr ar gyfer gweithgarwch Biwroau Cyflogaeth a Menter (EEB) yn 2026/27. Mae'n cadarnhau trefniadau monitro, llinellau amser ac yn atodi templedi monitro.

## Nod y cyllid

7. Nod y Biwroau Cyflogaeth a Menter yw cyflawni deilliannau cyflogaeth a hunangyflogaeth cadarnhaol ar gyfer myfyrwyr, trwy ddarparu pecyn o gymorth i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, menter ac entrepreneuraidd dysgwyr. Dylid rhoi'r cymorth hwn trwy gydweithio gyda chyflogwyr, Gyrfa Cymru, y Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, a phartneriaid allweddol eraill i ddatblygu cyfleoedd i ddysgwyr yn eu rhanbarthau.

8. Bydd y cyllid yn cynorthwyo dysgwyr i bontio o addysg i gyflogaeth neu hunangyflogaeth trwy ddatblygu'r sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuraidd y mae eu hangen arnynt i gyflawni deilliannau cadarnhaol. Dylai paratoi dysgwyr i ymuno â'r farchnad lafur a sicrhau bod ganddynt wybodaeth lawn am yr opsiynau gyrfa sydd ar gael iddynt gyfrannu at eu hatal rhag dod yn rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant (NEET) pan fyddant yn gorffen eu cwrs astudio.

9. Dylid defnyddio'r cyllid i barhau i integreiddio darpariaeth menter ac entrepreneuriaeth o fewn y Biwroau Cyflogaeth a Menter, gan amcanu at gynyddu'r cyfleoedd hunangyflogaeth sydd ar gael i ddysgwyr ac ymadawyr, yn ogystal â hybu'r arfer o wreiddio cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth o fewn y cwricwlwm er budd dysgwyr.

## Cefndir a'r cyd-destun polisi

10. Yn 2024, fe drosglwyddodd Llywodraeth Cymru'r cyfrifoldeb am gyllido'r Biwroau Cyflogaeth a Menter i Medr, y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil, a sefydlwyd ar 1 Awst 2024 fel y sefydliad sy'n gyfrifol am reoleiddio a chyllido'r sector addysg drydyddol yng Nghymru.

11. Yn 2026/27, bydd Medr yn parhau i gyllido'r Biwroau Cyflogaeth a Menter i gyrraedd y nodau a chyflawni'r amcanion a nodir yn y canllawiau hyn, gan adeiladu ar weithgarwch blaenorol Llywodraeth Cymru. Nid ydym yn disgwyl i ddarpariaeth na gweithgarwch Biwroau Cyflogaeth a Menter newid yn y cyfnod cyllido hwn. Mae Busnes Cymru wedi parhau i ddarparu cyllid i wreiddio a gwella cymorth entrepreneuriaeth o fewn y Biwroau Cyflogaeth a Menter yn 2026/27.

12. Mae Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 yn gosod dyletswyddau strategol ar Medr i *hybu addysg drydyddol sydd wedi ei threfnu'n gydlynol i hwyluso symudiad dysgwyr drwy gamau gwahanol addysg drydyddol ac i gyflogaeth neu fusnes, ac i hybu cyfle cyfartal trwy ddarparu cymorth i fyfyrwyr sy'n gorffen cyrsiau addysg drydyddol Gymreig sy'n aelodau o grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol i barhau â'u haddysg drydyddol, dod o hyd i gyflogaeth neu ddechrau busnes*.

13. Mae Cynllun Strategol Medr yn nodi ei ymateb i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg drydyddol ac ymchwil, sy'n cynnwys nod i sicrhau bod addysg drydyddol yn canolbwyntio ar anghenion y dysgwr, a chreu system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid. Bydd Medr yn cyhoeddi ymgynghoriad yn yr hydref ar fesurau perfformiad er mwyn ein helpu i sicrhau cysondeb yn ein dull o asesu deilliannau dysgwyr. Y nod fydd rhoi'r modd i ddarparwyr gefnogi eu gwelliant parhaus eu hunain, er mwyn ysgogi gwell deilliannau ym mhob rhan o'r sector addysg drydyddol.

14. Mae Cynllun Gweithredol 2026-27 Medr yn nodi'r gweithgareddau y byddwn yn eu cynnal er mwyn cyflawni'r nod strategol hwn, gan gynnwys sut y byddwn yn gwerthuso'r Biwroau Cyflogaeth a Menter mewn colegau addysg bellach er mwyn llywio penderfyniadau ynghylch dulliau cyllido yn y dyfodol.

15. Mae nodau'r cyllid hwn yn cyd-fynd â'r nodau a'r ffyrdd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac mae egwyddorion allweddol y Ddeddf wedi'u gwreiddio yn y gofynion ar gyfer y cyllid hwn.

**Gofynion, deilliannau a gweithgareddau**

16. Dylai darparwyr gydweithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i gyflawni gweithgareddau sy'n creu cyfleoedd ar gyfer atgyfeiriadau, dilyniant, cyflogaeth, hunangyflogaeth neu i ddechrau busnesau, ac sy'n gwella'r dewis i ddysgwyr ac yn osgoi dyblygu neu ddisodli gweithgarwch a gynigir mewn mannau eraill. Mae partneriaid yn cynnwys, ymhlith eraill, darparwyr addysg drydyddol eraill; cyflogwyr a busnesau lleol; sefydliadau'r trydydd sector, entrepreneuriaid; Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol; awdurdodau lleol; Gyrfa Cymru; a gwasanaethau a gyllidir gan Lywodraeth Cymru, megis Syniadau Mawr Cymru a Busnes Cymru.

17. Caiff yr allbynnau a'r deilliannau ar gyfer y Biwroau Cyflogaeth a Menter yn 2026/27 yn parhau i fod yn:

- Dysgwyr sydd wedi ymgysylltu â'r Biwro Cyflogaeth a Menter.
- Dysgwyr a gefnogwyd trwy'r Biwro Cyflogaeth a Menter.
- Dysgwyr sydd wedi ymgysylltu â chyfleoedd profiad gwaith.
- Dysgwyr a gynorthwywyd i gael cyflogaeth neu brentisiaeth.
- Dysgwyr a gynorthwywyd i ymgymryd â dysgu pellach/amgen neu addysg uwch.

- Dysgwyr a gynorthwywyd i ymgymryd â hunangyflogaeth.

18. Er mwyn cyflawni'r deilliannau, mae'n ofynnol i Fiwroau Cyflogaeth a Menter gynnal presenoldeb ffisegol fel y gallant gyflawni ystod o weithgareddau sy'n hygyrch i ddysgwyr o'r rhestr isod:

    i. cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth, trwy roi gwybodaeth, cyngor a chanllawiau ac arweiniad a mentora un-i-un, yn seiliedig ar anghenion dysgwyr.
    ii. cyfeirio at wasanaethau neu sefydliadau cymorth eraill, gan gynnwys Syniadau Mawr Cymru a Busnes Cymru, i hwyluso hunangyflogaeth.
    iii. gweithio gyda chyflogwyr a sefydliadau'r trydydd sector i drefnu profiad gwaith; sesiynau blasu; gweithgareddau ymgysylltu â chyflogwyr; lleoliadau neu gyfleoedd hunangyflogaeth; a mentora gan gyflogwyr neu gysgodi cyflogwyr.
    iv. darparu ystod o weithgareddau cyflogadwyedd, megis cymorth i ddatblygu CV, hyfforddiant chwilio am swydd, canolfannau asesu, a thechnegau cyfweliad.
    v. darparu ystod o weithgareddau entrepreneuriaeth i gymryd camau cadarnhaol tuag at hunangyflogaeth, gan gynnwys cymorth gyda syniadau busnes; cyflwyno syniadau neu fodelau; ysgrifennu cynlluniau busnes; rhedeg busnes; gweithio mewn BBCh; paratoi ar gyfer cyfleoedd hunangyflogaeth neu brentisiaeth; a chael mynediad at gymorth / rhaglenni dechrau busnes.
    vi. gwella dealltwriaeth dysgwyr am y cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hunangyflogaeth yn y rhanbarth, a oleuir gan Wybodaeth am y Farchnad Lafur a gyhoeddir gan Bartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol a Gyrfa Cymru, yn ogystal â chudd-wybodaeth darparwyr eu hunain o'u cysylltiadau â chyflogwyr. Dylai'r dull hwn gryfhau'r cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth a hunangyflogaeth gynaliadwy o ansawdd i ddysgwyr yn eu rhanbarth.
    vii. hybu mynediad at waith diogel, teg a boddhaus a chyfranogiad ynddo, sy'n cynnwys cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a dilyniant.
    viii. hybu gwaith teg, trwy godi ymwybyddiaeth dysgwyr o hawliau cyflogaeth a rôl Undebau Llafur.
    ix. cysylltu â chyfleoedd drwy'r SAB i gyd sy'n galluogi myfyrwyr i ennill sgiliau technegol a chyflogadwyedd uwch, megis trwy gyfranogi mewn cystadlaethau sgiliau a gynhelir yn rhanbarthol, yn genedlaethol, ac yn rhyngwladol.
    x. codi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r sgiliau y bydd eu hangen yn y dyfodol ar draws eu dewis ddiwydiant mewn perthynas â'r daith i Sero Net, fel eu bod yn gallu camu i mewn i rolau cynaliadwy neu ymgymryd â hunangyflogaeth gynaliadwy.
    xi. gwreiddio menter/entrepreneuriaeth mewn ffeiriau gyrfaoedd a swyddi, wythnosau sefydlu a threfnu gweithgareddau i gyfranogi yn yr Wythnos Entrepreneuriaeth Fyd-eang a gynhelir yn flynyddol ym mis Tachwedd.
    xii. adnabod a, hyd y gellir, dileu rhwystrau sy'n atal dysgwyr anabl rhag cael mynediad at gymorth trwy'r Biwro Cyflogaeth a Menter yn unol â'r model

cymdeithasol o anabledd[1]. Mae tîm Llywodraeth Cymru o Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl ar gael i roi cyngor ymarferol ar bob mater sy'n ymwneud â recriwtio a chadw gweithwyr anabl.

xiii. codi ymwybyddiaeth dysgwyr a chyflogwyr o fanteision cyflogadwyedd y Gymraeg mewn perthynas â chyfleoedd gwaith a gyrfaoedd a rolau.

xiv. cefnogi dysgwyr sy'n gadael rhannau eraill o'r system addysg ôl-orfodol a hyfforddiant, megis ysgolion, gyda ffocws ar gyflogadwyedd.

**Menter ac Entrepreneuriaeth**

19. Mae Llywodraeth Cymru'n darparu cyllid ar gyfer gweithgarwch menter trwy'r Biwroau Cyflogaeth a Menter, sy'n amcanu at ddatblygu'r eco-system fewnol o gymorth ar gyfer entrepreneuriaeth o fewn Sefydliad Addysg Bellach (SAB) a galluogi'r Biwro Cyflogaeth a Menter i weithredu fel llysgennad ar gyfer entrepreneuriaeth. Dylai fod yn sbardun ar gyfer newid, cynyddu gallu entrepreneuraidd ar draws y sefydliad a darparu cyfrwng arweiniol rhwng dysgwyr, staff a sefydliadau partner. Yn ogystal â'r gweithgareddau a nodir uchod, mae gofynion pellach sy'n gysylltiedig â menter ac entrepreneuriaeth yn cynnwys:

i. dynodi Hyrwyddwr Entrepreneuriaeth i ddatblygu cymuned o gymorth ar gyfer hunangyflogaeth a gweithredu fel llysgennad ar gyfer entrepreneuriaeth, gan gynnwys parhau i adeiladu ar y rhwydwaith Hyrwyddwyr Menter.

ii. adnabod hyrwyddwyr o blith y staff a fydd yn arwain ymdrechion i gefnogi entrepreneuriaeth trwy ennyn ymgysylltiad cyflogwyr, a helpu i hyrwyddo, gwreiddio a mesur entrepreneuriaeth yn y cwricwlwm.

iii. cefnogi rôl y sefydliad yn y gymuned trwy wneud gwaith allgymorth sy'n hyrwyddo menter ac entrepreneuriaeth mewn ysgolion lleol, grwpiau ieuenctid a grwpiau cymunedol.

iv. cyhoeddi adroddiad effaith blynyddol ar entrepreneuriaeth sy'n dangos gwerth cymorth grant a deilliannau gwaith galluogol a wnaed yn y sefydliad.

v. datblygu a chyfleu taith dechrau busnes eglur i ddysgwyr a chefnogi eu penderfyniadau a'u proses bontio i ddechrau cwmni trwy bontio'r bwlch rhwng dyhead a dechrau busnes.

vi. datblygu sianeli cyfathrebu i godi ymwybyddiaeth ac adrodd ar effaith gwaith a chyflawniadau'n fewnol yn ogystal ag wrth bartneriaid, y gymuned fusnes a rhanddeiliaid.

vii. mynd ati'n frwd i ennyn ymgysylltiad y gymuned fusnes, yn enwedig busnesau lleol i drosoli cymorth gan y sector preifat i deilwra gweithgareddau ac ychwanegu gwerth atynt i ddiwallu anghenion rhanbarthol a chreu cyfleoedd unigryw ar gyfer dysgwyr.

---

[1] Fframwaith yw'r Model Cymdeithasol o Anabledd a grëwyd gan bobl anabl i ymdrin â'r heriau y maent yn eu hwynebu. Mae'n pwysleisio bod pobl yn cael eu hanablu gan rwystrau mewn cymdeithas, nid gan eu namau. Mae rhagor o adnoddau i gyflogwyr recriwtio a chadw cyflogeion anabl ar gael yn Cyflogaeth Pobl Anabl. Hefyd, gellir cysylltu â Hyrwyddwyr Cyflogaeth Pobl Anabl Llywodraeth Cymru yn dpec@gov.wales.

## Gwella’n barhaus

20. Er mwyn sicrhau bod y cymorth a roddir gan y Biwroau Cyflogaeth a Menter yn diwallu anghenion dysgwyr ac yn cyd-fynd ag anghenion cyflogwyr, disgwylir i ddarparwyr werthuso’r gweithgareddau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth a gyflawnir i adnabod y gweithgareddau sy’n cael yr effaith fwyaf i oleuo eu darpariaeth. Rydym felly’n disgwyl i ddarparwyr ystyried mecanweithiau ar gyfer ystyried llais y dysgwr a barn cyflogwyr. Gall Biwroau Cyflogaeth a Menter barhau i ddefnyddio ffurflenni adborth Syniadau Mawr Cymru i werthuso fel un o’r mecanweithiau ar gyfer dangos effaith mewn perthynas ag entrepreneuriaeth.

21. Rydym hefyd yn disgwyl i ddarparwyr rannu arfer da a gwersi a ddysgwyd o gyflawni’r gweithgarwch hwn, trwy’r rhwydweithiau Cyflogaeth a Menter presennol. Dylai darparwyr ystyried a oes cyfle i gydweithio i gynnig cymorth i’w dysgwyr eu hunain.

## Monitro a dangos effaith

22. Mae’n ofynnol i SABau gyflwyno adroddiad monitro interim a diwedd blwyddyn, gan ddefnyddio’r templedi yn **Atodiad A a B**, i Medr erbyn y dyddiadau a nodir yn y llinell amser ym mharagraff 39. Gan bod y cyllid menter ar gyfer 2026/27 yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, bydd gwybodaeth yr adroddir arni wrth Medr yn erbyn y gofynion hynny’n cael ei rhannu gyda Llywodraeth Cymru fel y gellir monitro effaith ei chyllid.

23. Y prif allbynnau o hyd yw nifer y dysgwyr sy’n ymgysylltu â chymorth trwy’r Biwro Cyflogaeth a Menter, gan gynnwys cymorth entrepreneuriaeth sy’n arwain at gamau cadarnhaol tuag at hunangyflogaeth[2], yn ogystal â nifer y dysgwyr a gynorthwywyd i ymgymryd â chyflogaeth, hunangyflogaeth, prentisiaethau neu ddysgu pellach / amgen. Yn ychwanegol at hynny, dylai'r diweddariad ar entrepreneuriaeth (adran 5 o Atodiad A) gynnwys naratif ar y gwaith a wneir i ennyn diddordeb dysgwyr drwy godi ymwybyddiaeth a dyheadau mewn perthynas ag entrepreneuriaeth, eu grymuso drwy brofiadau a chyfleoedd entrepreneuraidd, sicrhau bod ganddynt y sgiliau, y wybodaeth a'r hyder i ddilyn llwybrau entrepreneuraidd, a'u galluogi i gael gafael ar y rhwydweithiau, y cymorth a'r adnoddau y bydd eu hangen arnynt i symud ymlaen i fod yn hunangyflogedig neu ddechrau eu busnesau eu hunain.

24. Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i Fiwroau Cyflogaeth a Menter ddatblygu astudiaethau achos sy’n dangos taith dysgwyr ac effaith ymgysylltu â chyflogwyr, sefydliadau cymorth a dysgwyr a gynorthwywyd i ymgymryd â hunangyflogaeth neu i ddechrau busnesau. Rydym yn disgwyl astudiaethau achos sy’n dangos yr agweddau cyflogadwyedd ac entrepreneuraidd y gweithgareddau.

## Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru

25. Yn ystod gwanwyn 2026, bu Medr yn ymgysylltu â'r holl sefydliadau addysg bellach er mwyn archwilio'r posibilrwydd o gofnodi dysgwyr a gefnogir drwy'r Biwroau

[2] Mae hunangyflogaeth yn cynnwys gweithio’n llawrydd, dechrau/lansio busnes a dechrau menter gymdeithasol.

Cyflogaeth a Menter o fewn ffurflen Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru o 2026/27 ymlaen. Bydd casglu'r wybodaeth hon yn rhoi dealltwriaeth gliriach o broffil demograffig dysgwyr a gefnogir, yn cyfrannu at fesur cynnydd tuag at gyflawni dyletswydd strategol Medr i hyrwyddo cyfle cyfartal mewn addysg drydyddol, ac yn sefydlu sylfaen dystiolaeth ar gyfer dadansoddi deilliannau tymor hwy dysgwyr a gefnogir drwy'r Biwroau drwy baru data dysgwyr â data Deilliannau Addysgol Hydredol.

26. Caiff blwyddyn academaidd 2026/27 ei thrin fel blwyddyn beilot er mwyn i sefydliadau addysg bellach sefydlu a phrofi prosesau casglu data, ac er mwyn i Medr asesu cadernid y data ar gyfer dadansoddiadau yn y dyfodol. Lle sefydliadau addysg bellach fydd penderfynu ar yr adeg fwyaf priodol i gyflwyno data i Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru, ar yr amod y caiff pob dysgwr a gefnogir drwy'r Biwroau Cyflogaeth a Menter yn 2026/27 ei gefnogi yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru erbyn dyddiad ciplun Cofnod Dysgu Gydol Oes Cymru ym mis Medi 2027. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â sefydliadau addysg bellach er mwyn canfod unrhyw broblemau neu heriau sy'n deillio o'r gofyniad hwn a mynd i'r afael â nhw.

27. Dylai sefydliadau addysg bellach gofnodi drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru y dysgwyr hynny sydd ar raglenni a ariennir drwy'r Fframwaith Cyllido Ôl-16 ac sy'n cael cymorth ystyrlon drwy'r Biwroau Cyflogaeth a Menter. Lle pob sefydliad addysg bellach fydd penderfynu ar y trothwy ar gyfer yr hyn sy'n gyfystyr ag ymgysylltu ystyrlon ar gyfer gweithgareddau cysylltiedig â chyflogadwyedd. Ni fyddai disgwyl i ddysgwyr sy'n mynd i ddigwyddiadau ar raddfa fawr yn unig gael eu cofnodi fel arfer, oni bai eu bod hefyd wedi cael cymorth ychwanegol a allai ddangos effaith. O ystyried bod Busnes Cymru wedi pennu haenau ymgysylltu ar gyfer gweithgarwch cysylltiedig â menter, gofynnwn i sefydliadau addysg bellach gofnodi dysgwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch sy'n cyflawni'r amcan grymuso y bydd angen adrodd arno yng Nghofnod Dysgu Gydol Oes Cymru.

28. Dylai sefydliadau addysg bellach barhau i gasglu data mewn perthynas â'r allbynnau y cytunwyd arnynt a nodir yn ein canllawiau a'n templedi monitro ac adrodd ar y data hynny. Bydd y rhain yn aros yr un fath ar gyfer 2026/27 ac ni fydd y gofyniad newydd hwn yn effeithio arnynt.

29. Gall darparwyr ddefnyddio un o'r tri maes canlynol i ddangos bod dysgwyr wedi cael cymorth Biwro Cyflogaeth a Menter tra oedd wedi'i gofrestru ar raglen sy'n gymwys i gael ei ariannu drwy'r Fframwaith Cyllido Ôl-16:

- LP44 – Maes a Nodir gan y Darparwr 1
- LP45 – Maes a Nodir gan y Darparwr 2
- LP75 – Cyfeirnod Dysgu a Ddefnyddir gan y Darparwr

30. Byddwn yn monitro'r defnydd o'r meysydd hyn ac yn ystyried a fydd angen cyflwyno maes penodol ar gyfer 2027/28 er mwyn cefnogi'r broses hon yn fwy effeithiol.

31. Ni fydd yn ofynnol i ddarparwyr na allant ddefnyddio'r un o'r meysydd hyn gyflwyno'r wybodaeth hon drwy Gofnod Dysgu Gydol Oes Cymru. Fodd bynnag, rhaid iddynt roi esboniad ysgrifenedig o'r rhesymau pam na ellir defnyddio'r un o'r meysydd hyn yn 2026/27.

32. Lle y bydd dysgwr yn cael cymorth drwy Fiwro Cyflogaeth a Menter tra bydd wedi'i gofrestru ar raglen sy'n gymwys i gael ei hariannu drwy'r Fframwaith Cyllido Ôl-16, dylid cofnodi un o'r cyfeirnodau canlynol wrth ymyl cofnod y rhaglen berthnasol yn y maes LP a ddewiswyd:

- EEB - dysgwyr sy'n ymwneud â chymorth cyflogadwyedd a menter
- EEBEMP - dysgwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch cyflogadwyedd yn unig
- EEBENT - dysgwyr sy'n ymwneud â gweithgarwch menter yn unig

33. Gan ei bod yn bosibl i ddysgwyr fod wedi'u cofrestru ar fwy nag un rhaglen, dylid cofnodi'r dangosydd EEB priodol wrth ymyl pob rhaglen sy'n gymwys i gael ei hariannu lle mae cymorth Biwro Cyflogaeth a Menter wedi cael ei roi.

34. Lle y bydd dysgwr wedi'i gofrestru ar fwy nag un rhaglen, gellir cofnodi dangosyddion EEB gwahanol ar gyfer pob rhaglen sy'n gymwys i gael ei hariannu, er mwyn adlewyrchu'r cymorth a roddir o fewn y rhaglen honno.

35. Gan fod cyllid ar gyfer gweithgarwch cysylltiedig â menter wedi'i glustnodi gan Lywodraeth Cymru, mae'n bwysig gallu nodi dysgwyr sydd wedi ymwneud â gweithgarwch cysylltiedig â menter yn unig yn ystod y flwyddyn beilot ac adrodd arnynt er mwyn i ni allu dangos effaith y ffrwd gyllido honno.

## Cyllid

36. Mae cyfanswm y gyllideb sydd ar gael i gefnogi'r Biwroau Cyflogaeth a Menter rhwng 1 Awst 2026 a 31 Gorffennaf 2027 yn **£1,320,000**. Mae'r cyllid hwn yn cynnwys £960,000 o gyllid Medr a £360,000 gan Busnes Cymru, y mae'n rhaid ei ddefnyddio i gefnogi'r elfen Menter ac Entrepreneuriaeth o weithgarwch y Biwroau Cyflogaeth a Menter mewn SABau yng Nghymru. Bydd cyfanswm y dyraniad yn parhau i gael ei rannu'n hafal rhwng 12 o sefydliadau addysg bellach yng Nghymru a bydd pob un yn cael cyfanswm dyraniad o £110,000 yn 2026/27 (£80,000 i ganolbwyntio ar Gyflogadwyedd a £30,000 i ganolbwyntio ar Fenter/Entrepreneuriaeth).

37. Bydd Medr yn gwneud taliadau mewn dau randaliad o £83,600 ym mis Medi 2026 a £26,400 ym mis Ebrill 2027.

38. **Rhaid** i SABau ddefnyddio'r cyllid a ddyrennir iddynt ar gostau sy'n gysylltiedig â darparu pecyn o gymorth i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd, menter ac entrepreneuraidd dysgwyr a ddarperir trwy'r Biwroau Cyflogaeth a Menter i gyflawni deilliannau cadarnhaol. Rhaid i ddarparwyr gydymffurfio â chanllawiau Medr a dychwelyd datganiad o wariant gan ddefnyddio'r templed yn **Atodiad C** ar gyfer y cyfnod 2026/27. Rydym yn cadw'r hawl i adhawlio unrhyw ran o'r dyraniad nad yw wedi cael ei wario (h.y. ei dalu allan) erbyn 31 Gorffennaf 2027.

**Ffrâm amser**

39. Cyflwynir y llinell amser ar gyfer taliadau a monitro yn y tabl canlynol:

| Cam Gweithredu | Cyfrifoldeb | Dyddiad |
|---|---|---|
| Taliad cyntaf o £83,600 i Fiwroau Cyflogaeth a Menter ar gyfer 2026/27 | Medr | Medi 2026 |
| Cyflwyno adroddiad interim i Medr | Biwroau Cyflogaeth a Menter | 29 Ionawr 2027 |
| Taliad olaf o £26,400 i Fiwroau Cyflogaeth a Menter ar gyfer 2026/27 | Medr | Ebrill 2027 |
| Cyflwyno adroddiad diwedd blwyddyn i Medr | Biwroau Cyflogaeth a Menter | 30 Gorffennaf 2027 |
| Cyflwyno Datganiad o Wariant i Medr | Biwroau Cyflogaeth a Menter | 31 Awst 2027 |

**Cydnabod cyllid**

40. Dylai darparwyr gydnabod gweithgareddau a ariennir gan Medr drwy ddefnyddio'r logo ***Ariennir gan Medr*** cymeradwy mewn deunyddiau marchnata, cyhoeddiadau, negeseuon a gweithgarwch hyrwyddo. I ofyn am gopi o'r logo a'r canllawiau brand cysylltiedig, cysylltwch â sgiliauachyflogadwyedd@medr.cymru.

41. Cyfrifoldeb darparwr yw cydnabod gweithgareddau a gyllidwyd yn gyfan gwbl neu’n rhannol gan Lywodraeth Cymru trwy ddefnydd priodol o logos a datganiadau Llywodraeth Cymru mewn deunyddiau marchnata neu gyfathrebiadau. **Dim ond i gyllid y mae SABau yn ei gael ar gyfer gweithgarwch menter y mae hyn yn berthnasol**. Lle caiff gweithgarwch ei gyllido’n rhannol gan Lywodraeth Cymru, dylid defnyddio’r logo priodol sy’n dynodi ei fod wedi ei gyllido’n rhannol. Lle caiff gweithgareddau eu cyllido’n llawn, dylai SABau ddefnyddio’r logo sy’n dynodi eu bod wedi cael eu cyllido gan Lywodraeth Cymru.

42. Dylid gofyn am ganllawiau ynghylch fformat, cydraniad a defnydd cywir ar gyfer logos yn uniongyrchol gan adran frandio Llywodraeth Cymru brand@gov.wales i sicrhau cydymffurfiaeth yn y cyfryngau.

43. Dylai’r holl weithgarwch i hyrwyddo gweithgareddau entrepreneuriaeth yn gyhoeddus gydnabod y Rhaglen Entrepreneuriaeth Ieuenctid, yn arbennig y defnydd o wasanaethau a ddarperir gan y Gwasanaethau Entrepreneuriaeth Ieuenctid a adwaenir yn weithredol fel Syniadau Mawr Cymru. Mae hyn yn cynnwys Modelau Rôl, gweithdai, digwyddiadau, ac ymgynghorwyr busnes 1-1 Syniadau Mawr Cymru. Dyma sy’n llywio’r defnydd o Busnes Cymru fel y prif ddarparwr Cymorth Busnes yng Nghymru.

44. Dylid hyrwyddo'r cymorth gan gyllid Llywodraeth Cymru ar wefannau, llyfrynnau a deunyddiau sefydliadol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw nwyddau hyrwyddo a brynir â chyllid grant i gefnogi gweithgareddau entrepreneuriaeth.

### Testun enghreifftiol marchnata a hyrwyddo

45. Ceir testun enghreifftiol marchnata a hyrwyddo a awgrymir isod, a gellir ei bersonoli i'ch Biwro Cyflogaeth a Menter chi neu ei ddiwygio fel y bo'n briodol:

    i. Cefnogir **[mewnosoder enw'r Biwro Cyflogaeth a Menter]** gan Lywodraeth Cymru fel rhan o Raglen Syniadau Mawr Cymru i ysbrydoli a helpu pobl ifanc i feithrin sgiliau entrepreneuraidd, archwilio hunangyflogaeth a datblygu eu syniadau busnes.
    ii. Cefnogir **[mewnosoder enw'r Biwro Cyflogaeth a Menter]** gan Lywodraeth Cymru drwy Raglen Syniadau Mawr Cymru. Mae'r rhaglen, sy'n rhan o Busnes Cymru, yn helpu ac yn ysbrydoli pobl ifanc rhwng 5 a 25 oed ledled Cymru i feithrin sgiliau entrepreneuraidd, archwilio hunangyflogaeth a dechrau eu busnesau eu hunain.
    iii. Ariennir **[mewnosoder enw'r Biwro Cyflogaeth a Menter]** yn llawn/yn rhannol gan Lywodraeth Cymru drwy Syniadau Mawr Cymru, gan ysbrydoli a helpu'r genhedlaeth nesaf o entrepreneuriaid ledled Cymru.

### Rhagor o wybodaeth

46. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn at Emma Mock neu Rachel O'Gorman (sgiliauachyflogadwyedd@medr.cymru).

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru

2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**